# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideo gynadledda dros Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Hydref 2024

Amser: 9.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14146

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Dominic Houlihan, Llywodraeth Cymru<br>Tim Moss, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Nia Moss (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Ni chafwyd ymddiheuriadau, dirprwyon na datganiadau o fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Cadeirydd ynghylch yr amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru**

**2.2 Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch Maes Awyr Caerdydd**

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i wneud gwaith dilynol ynghylch Maes Awyr Caerdydd yn ei sesiwn dystiolaeth ar 22 Ionawr.

**2.3 Ymateb gan Amgueddfa Cymru i adroddiad y Pwyllgor ynghylch craffu ar ei chyfrifon ar gyfer 2021-22**

**2.4 Ymateb gan Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru i Archwilio Cymru ynghylch ei adroddiad ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub**

**2.5 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ynghylch Diogelwch Adeiladau yng Nghymru**

## 3 Penodiadau Cyhoeddus: sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Cafodd y tystion eu holi gan yr Aelodau yn y sesiwn dystiolaeth ar Benodiadau Cyhoeddus.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Penodiadau Cyhoeddus: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ragor o wybodaeth.

## 6 Blaenraglen waith

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref a thymor y gwanwyn.

## 7 Archwilio Cymru: Teithio Llesol

7.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunwyd ar waith cysylltiedig gan y Pwyllgor.

## 8 Craffu ar Gyfrifon: Amgueddfa Cymru 2021 - 22: trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion i'w adroddiad, Craffu ar Gyfrifon: Amgueddfa Cymru 2021 – 22.